# Cynllun busnes

2022–24

Cyngor Meddygol Cyffredinol

# Cynnwys


**Ein blaenoriaethau yn 2022** **02**

**Cefnogi ein strategaeth** **03**

Adfer yn dilyn y pandemig 03

Sicrhau bod pob cysylltiad yn bwysig 04

Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy 05

Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni 06

Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel 07

**Cael y diweddariadau diweddaraf** **08**

# Ein blaenoriaethau yn 2022

## er mwyn cefnogi ein strategaeth gorfforaethol 2021 i 2025

Ein gweledigaeth yw bod yn rheolydd effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Ein rôl craidd yw darparu gwasanaeth rheoleiddio hyblyg ac ymatebol sy'n diogelu cleifion, sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd, ac sy'n bodloni anghenion y system iechyd.  Er mwyn gwneud hyn, rydym yn:

- gosod y safonau ar gyfer arfer meddygol
- cofrestru ac yn ailddilysu ein gweithwyr meddygol proffesiynol
- hyrwyddo safonau addysg feddygol uchel
- ymchwilio i bryderon a gweithredu yn eu cylch.

Er mwyn pennu ein prif flaenoriaethau, ystyriom nifer o ffactorau.

Bydd gofal cleifion sydd wedi ôl-gronni a phryderon ynghylch lles y gweithlu oherwydd y pandemig yn nodwedd o'r system iechyd am flynyddoedd i ddod.  Dros y dair blynedd nesaf, byddwn yn parhau i wrando ar brofiadau ac anghenion cleifion, y cyhoedd a'r proffesiynau.  Yna, byddwn yn defnyddio'r hyn y byddwn yn ei ddysgu i fanteisio i'r eithaf ar ein cyfraniad at adfer ac adnewyddu yn dilyn y pandemig.

Yn ogystal, byddwn yn ymwreiddio nifer o'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r pandemig hyd yn hyn yn ein ffyrdd o weithio.

Yn olaf, wrth i'r llywodraeth ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r ffordd yr ydym yn gweithio, rydym yn wynebu cyfle arwyddocaol i ailgynllunio ein prosesau a'n dull rheoliadol.

Er mwyn bodloni'r sialensiau hyn a manteisio i'r eithaf ar effaith ein gwaith, byddwn yn targedu ein hadnoddau at lai o weithgareddau.



# Adfer yn dilyn y pandemig

Wrth ymateb i'r pandemig, penderfynom oedi neu addasu ein gwaith ar adegau amrywiol yn ystod 2020 a 2021. Mewn rhai meysydd allweddol, penderfynom gynyddu ein gweithgarwch yn sylweddol er mwyn cynorthwyo meddygon – megis cyhoeddi arweiniad moesegol.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, rydym yn rhoi pwyslais o'r newydd ar fod yn gymesur, yn deg ac yn empathig. Bydd rhai o'r newidiadau a gyflwynom yn ystod y pandemig yn dod yn nodweddion parhaol o'n gwaith.

Yn 2020 a 2021, aethom ati i drawsnewid ein swyddfeydd, gan fuddsoddi mewn arholiadau diogel o ran COVID ar gyfer graddedigion meddygol rhyngwladol. Byddwn yn parhau i gynnig arholiadau ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r gweithlu.

Byddwn yn lleihau cyfanswm y gwrandawiadau a'r ymchwiliadau agored sydd wedi ôl-gronni i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig erbyn dechrau 2023.

Byddwn yn ymwreiddio'r defnydd parhaus o dechnoleg lle'r oedd wedi gwella ein dull gweithredu ee  gwrandawiadau rhith a hybrid.

Am y cyfnod pan fo'r llywodraeth yn penderfynu cynnal ein pwerau brys, byddwn yn rheoli trefniadau cofrestru brys dros dro. Bydd hyn yn ein helpu i gynorthwyo anghenion y system iechyd trwy gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol sydd ar gael gymaint ag y bo modd.

Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn cynnal archwiliadau manylion adnabod ar gyfer ein cofrestrau. Byddwn yn gwneud hyn trwy dreialu technoleg ddigidol newydd ac archwilio manylion adnabod meddygon a ymunodd â'r gofrestr yn ystod y pandemig.

Byddwn yn ystyried pa newidiadau cadarnhaol i addysg a hyfforddiant y bydd modd eu cynnwys yn ein dull gweithredu tuag at ddiwygio rheoliadol.

Byddwn yn parhau i archwilio a dysgu o'n harolygon, ein data a'n gwaith ymchwil.



## Sicrhau bod pob cysylltiad yn bwysig

### Diwygio rheoliadol

Rydym yn datblygu trefniadau rheoleiddio hyblyg er mwyn bod yn fwy cefnogol, ymatebol, cynhwysol, a theg. Mae'r gwaith yn cynnwys newidiadau i'n fframwaith cyfreithiol, ailgynllunio ein prosesau, a sicrhau bod cymdeithion meddygol (PAs) a chymdeithion anesthesia (AAs) yn cael eu rheoleiddio.

**Pwy:** Shaun Gallagher **Pryd:** Haf 2023 am y newidiadau cyntaf, gan gynnwys dwyn PAs ac AAs yn rhan o'r gweithgarwch rheoleiddio ac yna o hynny ymlaen.



# Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

## Rheoli diwedd cyfnod pontio Brexit

Rydym yn diweddaru ein prosesau cofrestru er mwyn ymateb i ddiwedd trefniadau pontio Brexit. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu cofrestru gweithwyr proffesiynol medrus fel y gall mwy o feddygon weithio yn y DU.

**Pwy:** Una Lane **Pryd:** bydd y trefniadau digyfnewid yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022 a bydd y newidiadau proses yn cael eu cwblhau erbyn Gorffennaf 2023.

## Cyflwyno Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym yn cyflwyno asesiad newydd a fydd yn cael ei ymwreiddio yn arholiadau terfynol graddedigion y DU ac a gaiff ei gyflawni gennym ni ar gyfer graddedigion meddygol rhyngwladol. Bydd yr asesiad yn creu cysondeb o ran lefelau y wybodaeth graidd, y sgiliau a'r ymddygiad a fydd yn ofynnol gan unrhyw feddyg sy'n gwneud gwaith meddygol yn y DU.

**Pwy:** Colin Melville **Pryd:** Bydd yr asesiadau yn cychwyn o 2024.



# Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni

## Parhau i ddenu a chadw talent

Rydym yn ehangu amrywiaeth ein pobl ac yn targedu'r rhwystrau y mae rhai cydweithwyr yn eu hwynebu fel y gallwn fod yn amgylchedd gwaith mwy cynhwysol. Yn ogystal, rydym yn gweithio i sicrhau achrediad Aur dan gynllun Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP).

**Pwy:** Neil Roberts **Pryd:** Gorffennaf 2023 (IiP), 2026 ar gyfer amrywiaeth ehangach.



# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

## Canlyniadau rheoliadol tecach

We have three key projects to help us focus on making fairness central to our work:

**A.** gwaredu gwahanrediadau mewn cyfeiriadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol gan gyflogwyr.
**Pwy:** Anthony Omo **Pryd:** erbyn 2026.

**B.** gweithredu canlyniadau addysg a hyfforddiant.
**Pwy:** Colin Melville **Pryd:** erbyn 2031.

**C.** adolygu tegwch a thryloywder ein penderfyniadau lle y mae cryn dipyn yn y fantol.
**Pwy:** Shaun Gallagher **Pryd** erbyn Medi 2022.

## Adolygiad o Arfer meddygol da

Byddwn yn sicrhau bod ein safonau ar gyfer y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio yn adlewyrchu disgwyliadau cyfredol cleifion a'r cyhoedd. Byddwn yn sicrhau bod ein harweiniad i'r proffesiwn mor berthnasol ag y bo modd, gan sicrhau ei fod mor berthnasol ag y bo modd i ofal.

**Pwy:** Colin Melville **Pryd:** erbyn Medi 2023.

# Cael y diweddariadau diweddaraf

Rydym yn cyhoeddi ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn ar ein gwefan trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'n diweddariad i'n Cyngor. Gallwch weld diweddariadau yma: gwefan a gwybodaeth am y Cyngor yma: Cyngor - CMC (gmc-uk.org)

Os hoffech siarad â'n timau sy'n gweithio ar y blaenoriaethau hyn - cysylltwch â ni felly gallwn eich helpu i siarad â'r bobl iawn.

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: 0161 923 6602

Cyhoeddwyd Ionawr 2021 | diweddaru Ionawr 2022
© 2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae'r GMC yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

GMC/BP2021-23/0122